***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1876 (Cy.181)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gorseinion a Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Abertawe (Diddymu) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *21 Gorffennaf 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *22 Gorffennaf 2010* |
| *Y n dod i rym - -* | *20 Awst 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 26(1)(b) a (5) a 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru(**2**).

Yn unol ag adran 27(2) o'r Ddeddf honno, mae Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gŵyr Abertawe ("*Gower College Swansea Further Education Corporation*")(**3**) wedi cydsynio â throsglwyddoeiddo, hawliau a rhwymedigaethau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gorseinion ("*Gorseinion College Further Education Corporation*")(**4**) a Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Abertawe ("*Swansea College Further Education Corporation*")(**5**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Gorseinion (" *Gorseinion College Further Education Corporation*") a Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Abertawe ("*Swansea College Further Education Corporation*"), yn unol ag adran 27(7) o'r Ddeddf honno.

Felly, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

(**1**) 1992 p.13; Diwygiwyd adran 26(1) gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31), paragraff 37(a) o Atodlen 30 ac Atodlen 31. Diwygiwyd adran 27 gan Orchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Dileu'r Cyngor) 2005 (O.S. 2005/3238), paragraffau 13 a 16(a) — (c) o Atodlen 1; gan Orchymyn Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/1080), paragraffau 18 a 19(a) a (b) o Ran 1 o Atodlen 1; gan Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddiant 2007 (p. 25), paragraffau 6 a 8 o Atodlen 1; a chan Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddiant 2007, Atodlen 2, ond ar adeg gwneud y Gorchymyn hwn nid oedd y diddymiadau perthnasol yn Atodlen 2 wedi'u cychwyn.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 26 a 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), paragraff 30 o Atodlen 11.

(**3**) Sefydlwyd gan Orchymyn Coleg Gŵyr Abertawe (Corffori) 2010 (O.S. 2010/1368 (Cy.118)).

(**4**) Sefydlwyd y gorfforaeth addysg bellach hon gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S. 1992/2097) dan yr enw "Gorseinion College" ond mae wedi gweithredu dan yr enw Coleg Gorseinon yn ogystal â'r enw Gorseinon College.

(**5**) Sefydlwyd y gorfforaeth addysg bellach hon gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S. 1992/2097) dan yr enw "Swansea College" ond mae wedi gweithredu dan yr enw Coleg Abertawe yn ogystal â'r enw Swansea College.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gorseinion a Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Abertawe (Diddymu) 2010 a daw i rym ar 20 Awst 2010.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**6**); ac

ystyr "yr Hen Gorfforaethau" ("*the Old Corporations*") yw Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gorseinion ("*Gorseinion College Further Education Corporation*") a Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Abertawe ("*Swansea College Further Education Corporation*").

**Diddymu a throsglwyddo**

**3.** Ar 20 Awst 2010 diddymir pob un o'r Hen Gorfforaethau a throsglwyddir eu holl eiddo, eu hawliau a'u rhwymedigaethau yn unol ag adran 27(2) o'r Ddeddf i Gorfforaeth Addysg Bell ach Coleg Gŵyr Abertawe ("*Gower College Swansea Further Education Corporation*"), sy'n gorff corfforaethol a sefydlwyd at ddibenion sy'n cynnwys darparu cyfleusterau a gwasanaethau addysgol.

**Trosglwyddo staff**

**4.**—(1) Mae unrhyw berson sy'n cael ei gyflogi gan y naill neu'r llall o'r Hen Gorfforaethau yn union cyn 20 Awst 2010 wedi ei ddynodi at ddibenion paragraff (2) yn unol ag adran 26(1)(b) a (5) o'r Ddeddf ("personau dynodedig").

(2) Mae adran 26 o'r Ddeddf yn gymwys i'r personau dynodedig fel petai'r cyfeiriadau yn is-adrannau (2), (3) a (4)—

(a) at berson y mae'r adran honno yn gymwys iddo yn gyfeiriadau at berson dynodedig;

(b) at y dyddiad gweithredol yn gyfeiriadau at 20 Awst 2010;

(c) at y trosglwyddwr yn gyfeiriadau at yr Hen Gorfforaeth sy'n cyflogi'r person dynodedig yn union cyn 20 Awst 2010; ac

(ch) at y gorfforaeth yn gyfeiriadau at Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Gŵyr Abertawe ("*Gower College Swansea Further Education Corporation*").

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

21 Gorffennaf 2010

(**6**) 1992 p.13.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r corfforaethau addysg bellach a sefydlwyd i redeg Coleg Gorseinion ("Gorseinion College") a Choleg Abertawe ("Swansea College") a bydd y diddymu hwnnw yn cael ei effaith o 20 Awst 2010 ymlaen. Mae'n darparu ar gyfer trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r naill gorfforaeth a'r llall i Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Gŵyr Abertawe ("Gower College Swansea Further Education Corporation") ac yn sicrhau hawliau cyflogaeth cyflogeion y corfforaethau a ddiddymwyd drwy gymhwyso adran 26(2) i (4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Effaith cymhwyso adran 26(2) yw cadw'r contractau cyflogaeth rhwng cyflogeion y corfforaethau a ddiddymwyd mewn perthynas â hawliau fel pe na bai newid o ran cyflogwr, er gwaethaf y ffaith mai Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gŵyr Abertawe ("Gower College Swansea Further Education Corporation") fydd y cyflogwr newydd o 20Awst 2010 ymlaen.